
Croeso i Gymru
Croeso i Sir Gâr
Croeso i'r Gymraeg
Welcome to Wales
Welcome to Carmarthenshire
Welcome to Welsh





Y Gymraeg The Welsh language

Os wyt ti'n dychwelyd i Sir Gâr neu'n symud yma, buan iawn y byddi di'n dod i arfer â gweld a chlywed y Gymraeg o dy gwmpas – o'r feddygfa i arwyddion ffordd, o ysgolion i chwaraeon.

Nod y llyfryn hwn yw dy helpu i fod yn rhan o'r gymuned gyffrous a dwyieithog hon, a gwneud y mwyaf o dy Gymraeg, neu'r cyfle i ddysgu Cymraeg.

Now that you've moved to Carmarthenshire, you will quickly be able to appreciate that you're living in a bilingual county. You will soon realise that the Welsh language has an important presence here. Throughout your everyday life you will be able to see and hear the language in all kinds of places – from road signs to doctors' surgeries, from schools to sports.

This handy booklet will help you get the most out of our vibrant bilingual society.

- Cymraeg yw iaith hynaf Prydain. Yn yr **8fed** ganrif, roedd modd teithio ar hyd Gorllewin Prydain gan siarad hen Gymraeg
- Mae **23%** o bobl Cymru, a **44%** o bobl Sir Gaerfyrddin, yn gallu siarad Cymraeg
- Mae **78,000** o siaradwyr Cymraeg yn y sir – y nifer mwyaf o holl awdurdodau unedol Cymru
- Mae dros **50%** o blant y sir yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg
- Yn Sir Gaerfyrddin sefydlwyd yr ysgol cyfrwng Cymraeg gyhoeddus gyntaf yng Nghymru, yn Llanelli yn **1947**
- **Welsh is the oldest language in Britain. In the 8th century, it was possible to travel along the west coast of Britain and speak an early version of Welsh**
- **23%** of people in Wales, and **44%** of people in Carmarthenshire, are able to speak Welsh
- There are **78,000** Welsh speakers in the county – more than in any other unitary authority in Wales
- Over **50%** of the county's children receive their education through the medium of Welsh
- The first publicly funded school in Wales was established in Llanelli in **1947**

Sir Gaerfyrddin drwy'r canrifoedd

Carmarthenshire through the centuries

- Yn y 10fed ganrif lluniwyd deddfau pwysig a blaengar ar gyfer Cymru gyfan gan y Brenin Hywel Dda yn HENDY-GWYN. Cymraeg oedd iaith y deddfau a gallwch eu gweld yn yr arddangosfa yn y dref.
- Yn y 18fed ganrif, sefydlodd Griffith Jones LLANDDOWROR gynllun chwyldroadol o ysgolion cylchynol. Erbyn diwedd y ganrif roedd tua 200,000 o blant yn medru darllen y Beibl Cymraeg, gan wneud Cymru yn un o'r gwledydd mwyaf addysgedig yn y byd. Yn 1954 mi wnaeth UNESCO drafod mabwysiadu'r cynllun fel dull o hybu llythrennedd yng gwledydd tlotaf y byd.
- Roedd William Williams o Bantycelyn, LLANYMDDYFRI yn un o arweinwyr y diwygiad Methodistaidd yn y 18fed ganrif. Ysgrifennodd dros 900 o emynau gan gynnwys yr enwog 'Bread of Heaven' sy'n dal i gael ei ganu mewn gemau rygbi heddiw dos 250 o flynyddoedd yn ddiweddarach!
- Roedd Eileen a Trefor Beasley yn ymgyrchwyr blaenllaw dros yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y 1950au, mewn cyfnod pan nad oedd gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Gwrthododd y Beasleys dalu eu biliau treth gan nad oeddent wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg. Cawsant eu cymryd i'r llys 16 gwaith dros gyfnod o wyth mlynedd, ond yn 1960, cytunodd Cyngor Dosbarth LLANELLI i argraffu biliau treth dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.
- Yn 2001, enillodd Mererid Hopwood y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Hi oedd y ddynes gyntaf i ennill y wobwr farddol uchel ei bri ers iddi gael ei sefydlu yn 1880. Mae hi'n byw ac yn gweithio yng NGHAERFYRDDIN.

- In the 10th century, King Hywel Dda established a nationwide, legal system for Wales in WHITLAND. The laws were written in Welsh and you can visit an exhibition at the site in the town.
- In the 18th century, Griffith Jones from LLANDDOWROR, established a pioneering circulating schools project. A total of about 200,000 children were taught to read the Bible in Welsh, making Wales one of the most literate countries in the world. In 1954 UNESCO considered adopting similar schemes to eradicate illiteracy in the poorer countries of the world.
- William Williams "Pantycelyn" from LLANDOVERY was a leader of the Methodist Revival in Wales in the 18th century. He wrote over 900 hymns, mainly in Welsh, and he is the author of 'Bread of Heaven' Wales' unofficial Welsh Rugby anthem which is sung in rugby games today – over 250 years later!
- In the 1950s, Eileen and Trefor Beasley became leading campaigners for the right to use Welsh since at that time, the Welsh language had no official status in Wales. The Beasleys refused to pay their tax bills until they were written in Welsh. This refusal led to the couple being taken to court 16 times over the course of eight years. They won their battle in 1960, when LLANELLI District Council agreed to print tax bills bilingually in Welsh and English.
- Mererid Hopwood is a Welsh poet who, in 2001, became the first woman ever to win the bardic Chair at the National Eisteddfod of Wales. She lives and works in CARMARTHEN.

Manteision Dwyieithrwydd Advantages of Bilingualism



- Mae dwyieithrwydd yn datblygu galluedd y meddwl – mae pobl ddwyieithog yn tueddu i fod yn fwy creadigol a hyblyg wrth ddatrys problemau. Gallant hefyd ganolbwyntio ar nifer o dasgau ar unwaith.
- Mae pobl ddwyieithog yn ei gweld yn haws i ddysgu ieithoedd ychwanegol.
- Mae bod yn ddwyieithog yn fantais yn y byd gwaith yng Nghymru, gan fod angen darparu gwasanaethau'n ddwyieithog.
- Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn gohirio dechreuad dementia a symptomau eraill clefyd Alzheimer.
- Bilingualism strengthens cognitive abilities - bilingual people tend to be more creative and flexible. They can be more open-minded, and they also find it easier to focus on a variety of tasks at once.
- Bilingual people find it easier to learn additional languages.
- Being bilingual is an advantage when applying for many jobs in Wales as there is a requirement to provide services in both English and Welsh.
- Research shows that being bilingual delays the onset of Dementia and other symptoms of Alzheimer.

Ble mae'r Gymraeg yn Sir Gâr? Where is the Welsh language in Carmarthenshire?



Falle na fyddwch yn sylwi, i ddechrau, faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio'n naturiol yn Sir Gaerfyrddin, ond mae'n iaith gymunedol, fyw. Mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn yr ysgolion, mewn corau, capeli, gweithgareddau hamdden, theatrau, ac mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Mentrau Iaith yn hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir ac mae ganddynt wybodaeth am ble mae'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y sir. Maent yn cynnal gweithgareddau Cymraeg a dwyieithog hefyd.

It may not be immediately evident how much the Welsh language is used naturally in Carmarthenshire, but it is a living language at the heart of many communities. Welsh is being spoken as a first and main language in our homes, in schools, choirs, chapels, all sorts of events and leisure activities, theatres and in public services.

The Mentrau Iaith promote Welsh in the county. They have information on where Welsh medium activities are held in the county, and they also organise Welsh medium and bilingual activities for all ages.

Y Mentrau Iaith: Welsh Language Enterprises:



Menter Gorllewin Sir Gâr
ymholiad@mgsg.cymru
01239 712934

Mae'r Fenter hon yn gweithio o Lanybydder i Gastellnewydd Emlyn, Caerfyrddin, Sanclêr a Hendy-gwyn. Mae gan y Fenter swyddfa yng Nghaerfyrddin ac yng Nghastellnewydd Emlyn.

Menter Gorllewin Sir Gâr works from Llanbydder to Newcastle Emlyn, Carmarthen, St Clears and Whitland. The Menter has an office in Newcastle Emlyn and in Carmarthen.

Menter Bro Dinefwr

Menter Bro Dinefwr
post@menterbrodinefwr.cymru
01558 825336

Mae'r Fenter hon yn gweithio yn Nyffryn Aman a Dyffryn Tywi, sy'n cynnwys trefi Llandeilo, Llanymddyfri a Rhydaman. Mae gan y Fenter swyddfa yn Llandeilo a Rhydaman.

Menter Bro Dinefwr works in the Amman and Towy valley which includes the towns of Llandeilo, Llandovery and Ammanford. The Menter has offices in Llandeilo and Ammanford.



Menter Cwm Gwendraeth Elli
ymholiad@mentercwmgwendraeth.org.uk
01269 871600

Mae'r Fenter hon yn gweithio o Landdarog i Lanelli, ac o Benbre i Lanon. Mae gan y Fenter swyddfeydd ym Mhontyberem a Llanelli.

Menter Cwm Gwendraeth Elli works from Landdarog to Llanelli and from Pembrey to Llannon. Their offices are in Pontyberem and Llanelli.

Mudiadau Cymraeg eraill Other Welsh organisations



merchedywawr.cymru

Mae Merched y Wawr yn fudiad sy'n cynnal clybiau cymdeithasol Cymraeg i fenywod. Mae nifer yn cwrdd yn fisol ar draws Sir Gâr. Mae Clybiau Gwawr ar gael hefyd i fenywod iau.

I gael rhestr o glybiau ewch at y wefan.

Merched y Wawr is an organisation that runs Welsh language social clubs for women. Many of these clubs meet in Carmarthenshire on a monthly basis. Clybiau Gwawr are also available for younger women.

A list of clubs is available on the website.



www.meithrin.cymru

Mudiad Meithrin yw'r prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol. Y nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

I ddod o hyd i'ch Cylch Ti a Fi neu Gylch Meithrin lleol, ewch i'r wefan. Ffôn: 01970 639639

Mudiad Meithrin is the main provider of Welsh medium childcare in the voluntary sector. The aim is to give the opportunity to every young child in Wales to benefit from early years services and experiences through the medium of Welsh.

To discover your local Cylch Ti a Fi (parent and toddler) or Cylch Meithrin (nursery group) go to the website. Tel: 01970 639639



www.urdd.cymru

Mae'r Urdd yn un o fudiadau ieuencid mwya' Ewrop ac mae'n cynnig cyfleoedd a gweithgareddau amrywiol i blant a phobl ifanc i ddysgu ac i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Os oes gennych chi blant oed ysgol, mae'n siŵr y byddan nhw'n cael cynnig cyfleoedd drwy'r Urdd i gystadlu mewn chwaraeon, canu, adrodd, ac i fynd ar dripiâu neu gyrisiau antur a phreswyl. Mae gan yr Urdd glybiau hefyd i blant a phobl ifanc y tu allan i oriau ysgol. Gweler y map ar y dudalen nesaf.

The Urdd is one of the largest youth organisations in Europe and it provides a variety of activities for children and young people to learn and socialise through the medium of Welsh.

If you have children of school age, they will probably be offered opportunities through the Urdd to compete in sport, singing, reciting, and to attend adventure camps and excursions. The Urdd also has out of hours clubs as shown on the map on the next page.




www.carmsyfc.org.uk

Mae'r Ffermwyr Ifanc yn fudiad ieuencid sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc rhwng 10 a 26 oed. Maent yn trefnu cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol ac amaethyddol ar lefel sirol, a chlybiau ieuencid ar lefel lleol. Mae 23 o glybiau yn Sir Gâr sy'n cael eu rhedeg gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.

Young Farmers is a youth organisation that provides opportunities for young people between 10 and 26 years old. They organise events and activities (social, cultural and agricultural) on a county level, and youth clubs on a community level. There are 23 clubs in Carmarthenshire that are run by young people for young people.

Clybiau Cymraeg plant a phobl ifanc:
Yr Urdd a Ffermwyr Ifanc
**Welsh clubs for children and young people:
The Urdd and Young Farmers**



Urdd
www.urdd.cymru



C.F.F.I. SIR GÂR
www.carmsyfc.org.uk



- Gall pob plentyn yn Sir Gâr ddod yn ddwyieithog drwy gael addysg Gymraeg.
- Mae'r mwyafrif o ysgolion cynradd Sir Gâr yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a cheir addysg cyfrwng Cymraeg i holl blant a phobl ifanc o fewn cyrraedd rhesymol i'w cartrefi.
- Gelli ddechrau taith ddwyieithog dy blentyn yn ifanc iawn. Ond dyw hi byth yn rhy hwyr - mae opsiynau i ymuno ag addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach.
- Trwy dderbyn addysg Gymraeg, bydd dy blentyn yn dysgu sgil ychwanegol - y gallu i gyfathrebu yn rhugl mewn dwy iaith.
- Mae arbenigwyr yn amcangyfrif bod dros hanner poblogaeth y byd yn siarad mwy nag un iaith - rho gyfle i dy blentyn di wneud hynny hefyd.
- Paid â phoeni os nad ydych yn siarad Cymraeg gartref, mae ysgolion yn croesawu ac yn cynorthwyo rhieni di-Gymraeg sydd am gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.
- Mae modd astudio nifer cynyddol o raglenni israddedig ac ôl-raddedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac yng Ngholeg Sir Gâr.

Am fwy o wybodaeth am ysgolion lleol ac i gael cyngor a gwybodaeth am addysg dy blentyn, cymer olwg ar wefan Cyngor Sir Gâr:
www.sirgar.llyw.cymru/addysg

- Every child in Carmarthenshire can become bilingual by taking advantage of Welsh medium education.
- Most primary schools in Carmarthenshire teach through the medium of Welsh and Welsh medium education is available to all children and young people within reasonable travelling distance from their homes.
- You can begin your child's bilingual journey at a very young age. But it's never too late - there are options to join Welsh medium education at a later stage.
- Welsh medium education will result in your child receiving an additional life skill - the ability to communicate fluently in two languages.
- It is estimated that more than half the world's population can speak more than one language - give your child the opportunity to do so as well.
- Don't worry if you don't speak Welsh at home, schools welcome and support non Welsh speaking parents, who want to introduce the Welsh language to their children.
- It is possible to study an increasing number of undergraduate and postgraduate programs in whole or in part through the medium of Welsh at the University of Wales Trinity St David and in Coleg Sir Gâr.

For more information about local schools and for advice and information about your child's education, visit Carmarthenshire County Council's website: www.carmarthenshire.gov.uk/education

Beth am ddysgu Cymraeg? What about learning Welsh?



Os wyt ti eisiau dysgu Cymraeg, neu gwella dy Gymraeg, neu os wyt ti'n chwilio am wersi Cymraeg ar gyfer rhywun arall, mae dewis o gyrsiau i oedolion ar gael ledled Sir Gaerfyrddin.

Chwilia am gwrs Cymraeg lleol ar dy lefel di ar:

www.dysgucymraeg.cymru

Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn hanfodol mewn nifer o weithleoedd yn y sir, ac mae'n fantais ym mhob man.

Mae nifer o gyfleoedd i ddatblygu dy Gymraeg trwy'r gweithle. Cer at: www.dysgucymraeg.cymru a chwilia am 'Cymraeg Gwaith'.

If you would like to learn Welsh or improve your Welsh, or if you're looking for Welsh lessons for someone else, there is a choice of lessons for adults across Carmarthenshire.

Look for local courses at your level on: www.learnwelsh.cymru

The ability to communicate and work in Welsh and English is essential in many workplaces in the county and is an advantage everywhere.

There are many ways you can start learning Welsh through your workplace. Take a look at: www.learnwelsh.cymru and look for 'Work Welsh'.

Neu, beth am ddysgu yn dy amser dy hun?

Dyma rai cyrsiau ar-lein:

- www.saysomethingin.com
Dysgu iaith drwy wrando ac ailadrodd.
- www.duolingo.com
Dysgu iaith mewn camau bach drwy osod nod y dydd.
- www.transparent.com
Cyrsiau ieithoedd ar-lein am ddim, gyda nifer o weithgareddau dysgu amrywiol.

Or, how about learning in your own time?

Here are some on-line courses:

- www.saysomethingin.com
Learning a language by listening and repeating.
- www.duolingo.com
Learning a language in small steps by setting a daily goal.
- www.transparent.com
Free language on-line courses with numerous learning activities.



**Sarah Reynolds,
Caerfyrddin / Carmarthen**

“Ar ôl symud i Gaerfyrddin o Surrey, 'nes i ddarganfod cymuned gynnes a chroesawgar ac ro'n i eisiau bod yn rhan ohoni.”

“When I moved to Carmarthen from Surrey, I discovered a warm, welcoming community and I really wanted to be part of it.”



Matt Adams, Pencarreg

“Y prif reswm pam roeddwn eisiau dysgu Cymraeg oedd oherwydd fy ngwraig! Cymraeg yw ei hiaith gyntaf hi. Mae'r Gymraeg yn rhan fawr o fy mywyd gartref ac yn y gwaith erbyn hyn.”

“The main reason why I wanted to learn Welsh was for my Welsh speaking wife! Welsh is now a huge part of my home and work life.”

Cymraeg ym myd busnes Welsh in business



Mae cynnwys yr iaith Gymraeg fel rhan o dy fusnes yn gallu dod â mwy o gwsmeriaid drwy'r drws, yn darparu gwasanaeth lleol sy'n dangos parch at y gymuned ac yn ffordd o ennyn ffyddlondeb cwsmeriaid.

Gall cynnig darpariaeth ddwyieithog wella safon dy wasanaeth i gwsmeriaid a bod yn ffordd o ymgysylltu'n agosach â chwsmeriaid, hen a newydd. Mae defnyddio'r Gymraeg yn gwneud synnwyr busnes. Mae llawer o help ymarferol ar gael i dy helpu i gyflwyno'r Gymraeg i'r busnes.

Ewch at: www.cymraeg.llyw.cymru/busnes a chwiliwch am 'Cymraeg ym Myd Busnes'.

Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

- Mae'n orfodol i holl gyrrff cyhoeddus Cymru ddarparu gwasanaeth yn ddwyieithog sydd yn golygu bod cyfleoedd i'r rhai sydd yn medru'r iaith.
- Mae Cyngor Sir Gâr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach i gyd yn darparu gwasanaethau dwyieithog. Defnyddiwch y cyfle i ddefnyddio'ch Gymraeg.
- Defnyddiwch eich Cymraeg pan welwch y logo yma.

Cymraeg

Embracing the Welsh language as part of your business can give you an advantage by providing a local service that shows respect for the community. It's also a great way of gaining customer loyalty.

Providing a bilingual service can also improve the quality of your customer service by allowing you to engage more closely with customers both old and new. The use of Welsh makes business sense. But you don't have to be able to speak Welsh to use it in your business as there is plenty of practical help available.

Go to: www.cymraeg.gov.wales/business and look for 'Welsh in Business'.

Using Welsh in the workplace

- All public bodies in Wales must offer services in Welsh so many jobs ask for Welsh language skills.
- Carmarthenshire County Council, Hywel Dda University Health Board, Dyfed Powys Police, Mid and West Wales Fire and Rescue Service and the Further and Higher Education establishments all provide bilingual services. Use the opportunity to use your Welsh.
- Use your Welsh whenever you see this logo.

Cymraeg

Cymorth pellach gyda'r Gymraeg Further support with the Welsh language



Y tro nesaf y byddi di mewn caffi, beth am drïo archebu yn Gymraeg?

Next time you are in a cafe, why not try and order in Welsh?

Y peth pwysig os wyt ti'n ansicr yw ceisio ymarfer dy Gymraeg, pryd a lle bynnag y cei di gyfle e.e. trwy wrando ar BBC Radio Cymru, gwylïo rhaglenni ar S4C, darllen y papur yn Gymraeg, drwy gymdeithasu mewn digwyddiadau neu yn y gwaith.

Whichever way you choose to learn, remember to practise, practise, practise, by chatting at work, listening to BBC Radio Cymru, watching Welsh language programmes on S4C, reading your local Welsh language paper or by socialising at events.

Siopa

Galli di siarad Cymraeg wrth siopa yn y siopau llyfrau a nwyddau Cymreig yma

- SIOP Y PENTAN, Y Farchnad, Caerfyrddin, SA31 1QY
- CYFOES, 18 Stryd y Gwynt, Rhydaman, SA18 3DN
- IAGO, 2 Heol Sycamorwydden, Castellnewydd Emlyn SA38 9AJ
- CROESO CYNNES, 57, Stryd y Brenin, Caerfyrddin, SA31 1BD

Shopping

You will be able to speak Welsh in these shops that sell Welsh books and merchandise

- SIOP Y PENTAN, the Market, Carmarthen, SA31 1QY
- CYFOES, 18 Wind Street, Ammanford, SA18 3DN
- IAGO, 2 Sycamore Street, Newcastle Emlyn, SA38 9AJ
- CROESO CYNNES, 57, King Street, Carmarthen SA31 1BD

Cymdeithasu

Socialising



Yn YR ATOM, sef Canolfan Gymraeg tref CAERFYRDDIN, mae yna gaffi ac ystafelloedd cyfarfod a gweithgareddau amrywiol, a byddi di'n siŵr gael Gymraeg yno. Lleolir yr Atom ar Stryd y Brenin

YR ATOM, CARMARTHEN'S Welsh Language Centre on King Street, has a café and meeting rooms for various events and activities. You're sure to find someone who speaks Welsh there.



Mae yna Ganolfan Gymraeg yn LLANELLI hefyd, sef Y LLE, sy'n cynnal digwyddiadau Cymraeg: 9-11 Heol yr Hen Gastell, Llanelli SA15 2SL

There is also a Welsh Centre in LLANELLI called Y LLE, which holds Welsh medium events: 9-11 Old Castle Road, Llanelli SA15 2SL

y cwtsh...

Mae'r CWTSH yn PONTYBEREM yn gaffi cymunedol sy'n paratoi prydau poeth a phrydau ysgafn yn ffres bob dydd ac yn defnyddio cynhwysion lleol o'r safon uchaf. 11-17 Heol Coalbrook, Pontyberem, Llanelli, SA15 5HU

Y CWTSH is a Welsh language community cafe in PONTYBEREM that prepares hot meals and light bites daily using the finest local ingredients. 11-17 Coalbrook Road, Pontyberem, Llanelli, SA15 5HU



Mae CYFOES yn Siop Gymraeg a chanolbwynt i'r iaith yn Rhydaman, 18 Stryd y Gwynt, Rhydaman, SA18 3DN

CYFOES is a Welsh shop and Welsh language hub in Ammanford, 18 Wind Street, Ammanford, SA18 3DN

Defnyddio'r Gymraeg ar-lein Using Welsh on-line

Newyddion, Radio, Cylchgronau a Llyfrau News, Radio, Magazines & Books

Golwg 360	www.golwg360.cymru
Radio Cymru	www.bbc.co.uk/radiocymru
S4C	www.s4c.cymru
Cymru Fyw	www.bbc.co.uk/cymrufyw
Cyngor Llyfrau Cymraeg /Welsh Books Council	www.clc.org.uk
Cymru FM	www.cymru.fm
Gwales	www.gwales.com
Y Lolfa	www.ylolfa.com
Gomer	www.gomer.co.uk

Geiriaduron ar-lein

Yn www.geiriadur.com mae yna nifer o opsiynau o wahanol eiriaduron.

Dyma'r rhai mwyaf defnyddiol:

Enw'r Geiriadur Name of dictionary	Gwefan Website
Geiriadur yr Academi	www.geiriaduracademi.org
Geiriadur ar lein Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant	www.geiriadur.net
Porth Termau Cenedlaethol Cymru (Prifysgol Bangor)	www.termaw.cymru
Geiriadur Cymraeg Gomer	www.gweiadur.com (you need to register to use this)
Geiriadur Prifysgol Cymru	www.geiriadur.ac.uk
BydTermCymru	www.cymraeg.gov.wales/btc

Apiau Cymraeg i blant, pobl ifanc ac oedolion:
www.cymraeg.llyw.cymru/Apps

On-line dictionaries

If you go to www.geiriadur.com you will find a number of options for different on-line dictionaries. Here are some of the most useful ones:

Welsh Aps for children, young people and adults:
www.cymraeg.llyw.cymru/Apps

1 miliwn erbyn 2050

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth hirdymor i weld y Gymraeg yn ffynnu, gyda miliwn o siaradwyr.

Erbyn 2050, gobeithir gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd o fywyd a gweld y rheiny sydd ddim yn siarad Cymraeg yn dangos parch tuag ati ac yn ei gwerthfawrogi.

1,000,000

1 million by 2050

The Welsh Government has a long-term vision to see the Welsh language thriving, with a million people able to speak Welsh by 2050. You can play a part in that - even if you don't speak Welsh.

By understanding and appreciating the value of the language to our culture and communities, you will help increase its use in all aspects of life.

Useful Welsh words and phrases

Key phrases

Good Morning	Bore da (Bor-eh dah)
Good Afternoon	Prynhawn da (Prin-hawn dah)
How are you?	Sut wyt ti? (Sit ooet tee)
Can I have...	Ga i... (Gah ee...)
Cup of tea	Paned o de (Pan -ed d oh deh)
Cup of coffee	Paned o goffi (Pan-edd oh goffee)
Please	Os Gwelwch yn dda (Oss gwell-ooch un thah - 'ch' like 'ch' in 'loch', 'th' as in 'thin')
Thank you	Diolch (Dee-olch, 'ch' as in 'loch')
Where is the...	Ble mae'r... (Bleh mah-her...)
I'm learning Welsh	Dwi'n dysgu Cymraeg (Dween dusgee cumraig)
See you tomorrow!	Welai di 'fory! (Whale-eye dee voree)
Goodbye	Hwyl fawr (Hoil vaur)

How to pronounce...

Consonants

c	as in car
ch	as in Bach , loch
dd	as in the
f	as in vase
ff	as in free
g	as in garden
ng	as in gang , Kung Fu
ll	to pronounce this sound, place tip of the tongue against your upper palate and breathe out!
ph	as in photograph
r	as in row
rh	sound the Welsh 'r' and breathe out!
th	as in think

Vowels

There are two extra vowels in Welsh:

a	as in car
e	as in there
i	as in tree
o	as in pot
u	as in been
w	as in zoo
y	can either be sound in pub or tin



**recycle
ailgylchu**

Please recycle this publication
Cofiwch ailgylchu'r cyhoeddiad yma